

Trysor cudd: gwirfoddoli amser a dawn



Gwirfoddoli yw'r 'alcemi newydd', yn troi rhoddion o amser a dawn yn 'aur dynol', medd adroddiad mawr nfpSynergy¹ ar wirfoddoli.

Mae gwirfoddolwyr yn defnyddio'u dylanwad trawsnewidiol ledled cymdeithas Cymru, yn y meysydd iechyd a gofal, heb sôn am feysydd eraill. Dangosir cyfraniad canmoladwy gwirfoddolwyr at ddarparu [gofal ar ôl rhyddhau o'r ysbyty yn Sir Benfro](#) a [chynorthwyo defnyddwyr cymhorthion clyw yng nghefn gwlad Powys](#) yn yr astudiaethau achos hyn. Yn y ddwy enghraifft, mae gwirfoddolwyr yn helpu i leihau'r pwysau ar y GIG, yn ogystal â chyfrannu at iechyd a llesiant cadarnhaol. Dengys fideo diweddar a gyd-gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru sut mae [gwirfoddolwyr yn cyfrannu at agenda Cymru iachach](#).

Waeth mewn ysbytai neu gymunedau, trwy rolau ffurfiol neu weithgareddau anffurfiol, seiliedig ar dasgau, mae amser a dawn gwirfoddolwyr yn adnodd y gallem ni ei harneisio'n fwy eang, yn fwy strategol ac yn fwy effeithiol. Y cwestiwn sydd angen i ni ei ofyn wrth edrych ymlaen yw sut allwn ni wneud hyn. Ond yn gyntaf, ni allwn anwybyddu'r gwersi pwysig a ddysgwyd o wirfoddoli yn ystod Covid 19.

Beth ydym ni wedi'i ddysgu?

Mae'r profiad yng Nghymru wedi'i gofnodi mewn adroddiad, '[Gwirfoddoli i gynorthwyo'r GIG: edrych ymlaen yn sgil Covid-19](#)', sy'n seiliedig ar ddigwyddiad ar y we a gynhaliwyd gan CGGC.

Mae'r diddordeb mewn gwirfoddoli wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Yn wir, gwnaeth yr ymateb digyffelyb gan wirfoddolwyr fynd y tu hwnt i gapasiti byrddau iechyd i'w cynnwys mewn modd amserol a oedd yn fuddiol i'r ddwy ochr. Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) oedd y pwynt ymholi cyntaf yn aml, a nhw oedd yn ymdrin â phrosesau recriwtio a

¹ The New Alchemy. How volunteering turns donations of time and talent into human gold. M Guild, T Harrison a J Saxton (2014) Nfp Synergy. <https://nfpsynergy.net/free-report/new-alchemy> (Saesneg yn unig)

hyfforddi, gan gadw mewn cysylltiad â gwirfoddolwyr a rheoli disgwyliadau.

Mae llawer i'w ddysgu o ran y ffordd y mae gwirfoddoli wedi'i ddylunio a'i gefnogi yn y GIG, gan gynnwys:

- yr angen am rolau gwirfoddoli amrywiol, gan gynnwys rolau sylweddol parhaus a rolau eraill sy'n gysylltiedig ag ymateb i argyfwng,
- cysondeb yn y ffordd yr eir ati a chydlyniant gwell, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol - gwnaeth cefnogaeth rhanddeiliaid alluogi prosesau mwy effeithlon ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr mewn rolau defnyddiol
- ffyrdd o fesur effaith wirfoddoli - heb hyn, mae gwirfoddoli'n parhau i fod yn 'anweladwy'
- Gwerth partneriaethau ehangach a sut i adeiladu ar y rhain - er enghraifft, defnyddio arbenigedd CVCs

Yn Lloegr, mae Helplu wedi bod yn cefnogi dulliau integredig o wirfoddoli (Saesneg yn unig) ar draws partneriaethau strategol. Yn dilyn arolwg diweddar gan arweinwyr y GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, amlyga adroddiad (Saesneg yn unig) fod gwirfoddolwyr yn adnodd na chaiff ei ddefnyddio i'r eithaf, ac yn un sy'n gallu creu gwydnwch mawr ei angen ar draws systemau iechyd a gofal rhanbarthol.

Mae blog gan Paddy Hanrahan (Saesneg yn unig) yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolwg ac yn dadlau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cynnwys yn fwyaf effeithiol pan fydd systemau rhanbarthol yn mynd ati mewn modd strategol, gyda gwahanol fudiadau partner yn gweithio gyda'i gilydd.

Er enghraifft, gwnaeth cydweithio rhwng mudiadau alluogi gwirfoddolwyr i gael eu cyfeirio at y manau yr oedd eu hangen mwyaf. Roedd mudiadau lleol o'r sector gwirfoddol yn dueddol o fod yn fwy hyblyg na gwasanaethau statudol ac yn gallu dylunio rolau gwirfoddoli newydd a recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr newydd yn gyflymach.

Mewn manau lle roedd gwirfoddoli wedi'i nodi'n flaenorol fel prif elfen wrth ymateb i argyfwng dinesig, roedd y gwirfoddolwyr wedi'u defnyddio'n gyflym mewn ymateb i Covid 19.

Cefnogir dull system gyfan, lle mae'r swyddogaethau sydd eu hangen yn cael eu diffinio ar lefel strategol a lle mae'r gwaith o recriwtio, cefnogi a

chydlynu gwirfoddolwyr yn cael ei reoli gan strwythurau seiliedig ar le, sy'n agos at y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Edrych at y dyfodol

Mae gwirfoddoli i gynorthwyo'r GIG yn gwmpas eang iawn. Mae'r pandemig wedi cyflymu rhai newidiadau cadarnhaol o ran gweithio'n ddigidol, partneriaethau cydweithredol a rheoli risg, a gallwn ni adeiladu ar bob un o'r rhain.

I rai byrddau iechyd, efallai mai'r agenda gweithlu fydd yn ysbrydoli buddsoddiad mewn gwirfoddoli; y cyfle i wirfoddolwyr gael blas ar yrfa bosibl yn y dyfodol. I rai, mae'n cyd-fynd â'r agenda amrywiaeth ac ymgysylltu, trwy gynnwys cynrychiolaeth ehangach o'r gymuned.

Efallai mai'r effaith y mae gwirfoddolwyr yn ei chael ar gefnogi canlyniadau clinigol, lleihau'r straen ar staff neu wella profiad y claf yw'r rhesymeg bwysicaf dros wirfoddoli, neu efallai mai'r gweithgareddau cynorthwyo ac atal y mae gwirfoddolwyr yn eu darparu yn y gymuned sydd bwysicaf, gan gydnabod sut mae hyn yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau aciwt. Dylem hefyd gofio bod [cysylltiadau sefydledig rhwng gwirfoddoli ac iechyd a llesiant gwirfoddolwyr \(Saesneg yn unig\)](#).

Mae gwaith ymchwil diweddar a pharhaus yn datgelu mwy a mwy am yr hyn sy'n gweithio, gan gynnwys yr hyn sydd angen ei gael yn ei le er mwyn i wirfoddoli fod yn llwyddiannus.

Mae Helpu wedi cyhoeddi canfyddiadau ei [raglen Arloeswyr Gwirfoddol \(Saesneg yn unig\)](#), lle datblygwyd naw rôl wirfoddol benodol a'u peilota gan bartneriaid y GIG yn Lloegr, gan gynnwys cymorth yn ystod prydau bwyd, cymorth rhyddhau o'r ysbyty, cymorth â symudedd a gofal diwedd oes. Noda'r canfyddiadau fod gwirfoddoli yn effeithio'n gadarnhaol ar gleifion, staff a systemau. Mae canllawiau gwasanaeth wedi'u cyhoeddi ar gyfer pob un o'r naw rôl, gan ystyried profiadau'r prosiectau peilot.

Mae potensial gwirfoddoli cymunedol anffurfiol yn destun i nifer o raglenni ymchwil, gan gynnwys astudiaeth pedair gwlad y DU ar ddefnyddio gweithredu gwirfoddol (lle y mae CGGC yn gyd-ymchwilydd). Nod yr astudiaeth hon yw mesur ac arfarnu cwmpas a phwysigrwydd cyfraniad gwirfoddolwyr yn ystod y pandemig.

Mae materion llywodraethu yn bwysig, yn enwedig mewn amgylcheddau gofal, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion ac i ddiogelu gwirfoddolwyr hefyd. Wrth i wirfoddoli ddychwelyd i rywbeth mwy 'normal' yr olwg,

mae'n gyfle delfrydol i ni edrych ar yr hyn y mae Rob Jackson yn ei alw'n [y ffurfiol newydd \(Saesneg yn unig\)](#); lleihau biwrocratiaeth a ffurfioldeb wrth ymgysylltu â gwirfoddolwyr; edrych o'r newydd ar yr hyn rydym yn ei wneud, pryd a pham.

Nid yw hyn yn ymwneud â chefnu ar reoli gwirfoddolwyr! Mae'r [Siarter cydberthnasau gwirfoddoli a'r gweithle](#) gan CGGC/TUC Cymru yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer cynnal cydberthnasau cyson yn y gweithle ac mae'n rhoi cyfeiriad da, sy'n seiliedig ar brofiad rheolwyr gwirfoddolwyr, CVCs ac undebau llafur yng Nghymru.

Os mai gwirfoddoli yw'r 'alcemi newydd', yna byddai'n ddoeth i ni gofio'r alcemyddion: y rheini sy'n hyrwyddo gwirfoddoli ac yn cyd-gynhyrchu a chefnogi mentrau gwirfoddoli ymarferol. Hebbyd nhw, gallai amser a dawn gael eu mynegi mewn gweithredoedd da, ond nid yw 'aur dynol' yn debygol.

Fiona Liddell yw Rheolwr [Helplu Cymru](#) gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. fliddell@wcva.cymru

Mae Helplu yn gweithio gyda Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC a 19 CVCs) Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu potensial gwirfoddoli i gynorthwyo gwasanaethau ieched a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fran Targett yw Cadeirydd Helplu Cymru, Is-gadeirydd CGGC ac mae'n un o [Gomisiynwyr Bevan \(Saesneg yn unig\)](#)